Annwyl gwsmer

**Swyddfa Bost® Llandysilio**
**A arferai fod yn: Clunderwen, SA66 7SU**

**Penderfyniad yn dilyn Ymgynghoriad Cyhoeddus Lleol**

Rwy’n ysgrifennu ynglŷn â fy llythyr dyddiedig 27 Ebrill i gadarnhau sefydlu Gwasanaeth Allgymorth Symudol y tu allan i Bopty Merydd, Llandysilio, Clunderwen, SA66 7TG.

Cawsom un ymateb yn unig gan gwsmer yn ystod y cyfnod o ymgynghoriad cyhoeddus. Roedd y prif adborth yn croesawu adfer gwasanaethau Swyddfa'r Post i Landysilio. Rwy’n ffyddiog, felly, taw sefydlu Gwasanaeth Allgymorth Symudol yw’r cam cywir i’w gymryd.

Mae manylion pellach am y gwasanaeth newydd ar gael ar ddiwedd y llythyr hwn.

Mae copi o'r llythyr hwn ar gael hefyd ar ein gwefan yn postofficeviews.co.uk. Wrth gyrraedd y wefan, gofynnir ichi gofnodi'r cod ar gyfer y gangen hon: 27261399

Diolch i chi am ystyried ein cynllun.

Yr eiddoch yn gywir

*Jeremy Kiff*

**Jeremy Kiff**
**Rheolwr Gweithrediadau’r Rhwydwaith**

**Sut i gysylltu â ni:**


postofficeviews.co.uk

comments@postoffice.co.uk

Llinell Gymorth I Gwsmeriaid:
03457 22 33 44
Ffôn Testun: 03457 22 33 55

FREEPOST Your Comments


**Sylwch, os gwelwch yn dda, mai hwn yw'r cyfeiriad llawn i'w ddefnyddio ac nad oes angen manylion cyfeiriad eraill.**

Rydym wedi cyhoeddi ein cynllun terfynol ar-lein. I’w weld, sganiwch yma.

Os nad oes gennych sganiwr cod QR ar eich ffôn, gallwch gael hyd i un yn eich storfa ap.


Post Office Limited is registered in England and Wales. Registered No. 2154540.
Registered Office Finsbury Dials, 20 Finsbury Street, London. EC2Y 9AQ
Post Office and the Post Office logo are registered trade marks of Post Office Limited
Cofrestwyd Swyddfa’r Post Cyf yng Nghymru a Lloegr. Rhif Cofrestredig 2154540
Swyddfa Gofrestredig yn Finsbury Dials, 20 Finsbury Street, Llundain. EC2Y 9AQ.
Mae Swyddfa’r Post a logo Swyddfa’r Post yn nodau masnach cofrestredig i Swyddfa’r Post Cyfyngedig

PostOffice.co.uk

Cafodd y broses gyfathrebu hon ei chytuno â chorff gwarchod statudol annibynnol y defnyddwyr, sef y Cyngor ar Bopeth a Chyngor ar Bopeth yr Alban ym Mhrydain, a Chyngor y Defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon. Mae'n cael ei gweithredu yn unol â'n Cod Ymarfer ar gyfer newidiadau i rwydwaith Swyddfa'r Post, a gytunwyd â nhw. Os hoffech gael copïau o'r Cod, maent ar gael mewn canghennau, neu wrth gysylltu â ni neu wrth ymweld â'n gwefan yn: www. postofficeco.uk/transforming-post-office. Os ydych o'r farn nad ydym wedi dilyn y broses yn gywir ac yn dymuno gwneud cwyn, byddwch cystal ag anfon llythyr neu ebost atom wrth ddefnyddio'r manylion cyswllt yn ein posteri a llythyrau ac esbonio pam. Byddwn yn archwilio eich cwyn ac yn rhoi ateb i chi cyn gynted â phosibl. Byddwn yn rhoi'r mannau cyswllt perthnasol ar gyfer y corff gwarchod defnyddwyr i chi. Felly, os ydych yn dal yn anfodlon ar ôl derbyn ein hymateb, gallwch ofyn iddynt am eu cymorth.

**I gael yr wybodaeth hon mewn fformat gwahanol, er enghraifft, print bras, sain neu Braille, byddwch cystal â chysylltu â'r Llinell Gymorth i Gwsmeriaid ar 03457 22 33 44 neu Ffôn Testun 03452 66 01 15.**

**Gwasanaeth Symudol Llandysilio**
Y tu allan i Bopty Merydd
Llandysilio
Clunderwen
SA66 7TG

**Oriau agor**

| | |
|---|---|
| Mercher | 13:00 – 14:00 |

**Gwasanaethau**
Bydd dewis eang o wasanaethau ar gael. Gall cwsmeriaid ddal i gasglu budd-daliadau mewn arian parod trwy ddefnyddio ein gwasanaethau bancio beunyddiol neu gyfrif cerdyn Swyddfa'r Post.

**Mynediad a chyfleusterau**
Mae yna ris i mewn i'r Cerbyd Symudol, ond mae tinbren electronig ar gael ar gyfer defnyddwyr cadair olwyn neu bobl ag anableddau.

**Parcio**
Mae modd parcio yn agos i'r Cerbyd Symudol

**Llwybr**
Ar hyd tir amrywiol ei natur, o fewn tua 600 metr i'r gwasanaeth blaenorol.